hawdd i’w ddarllen




# Canllaw i Orchmynion Amddifadu o Ryddid Cymunedol

Gwasanaeth Anabledd Integredig Conwy

**Am beth mae’r daflen yma’n sôn**

Dyma ganllaw Hawdd i’w Ddarllen am Orchmynion Amddifadu o Ryddid Cymunedol. Mae'r llyfryn yma’n egluro beth sy’n digwydd pan fyddwn ni’n gwneud cais am Orchymyn Amddifadu o Ryddid Cymunedol.

Efallai y byddech chi’n hoffi cael rhywun i’ch helpu chi pan fyddwch chi’n edrych ar y llyfryn yma.

This document is also available in English.



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT





Weithiau, mae pobl angen help gan ddoctoriaid, nyrsys neu weithwyr gofal, mewn lleoliad byw â chymorth, neu yn eu cartref eu hunain.





Dylai'r gofal yma ddigwydd mewn ffordd sy'n cadw pobl yn saff, ond pryd bynnag fo'n bosibl, ni ddylai eu stopio nhw rhag gwneud beth maen nhw eisiau ei wneud.




Mae yna gyfraith o'r enw y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae'n dweud beth ddylai ddigwydd pan na fydd pobl yn gallu gwneud rhai penderfyniadau eu hunain.




Pan na fydd pobl yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain, yr enw ar hyn ydi **ddiffyg galluedd**.





Efallai y byddwch chi'n gallu gwneud **rhai** penderfyniadau, ond ddim yn gallu gwneud penderfyniadau **eraill**.

Bydd angen i bobl wybod:

- Pa benderfyniadau allwch chi eu gwneud ar eich pen eich hunain
- Pa benderfyniadau ydych chi angen help gyda nhw
- Pa benderfyniadau nad ydych chi'n gallu eu gwneud.



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT





Mae pobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau am le maen nhw'n byw a'u gofal a'u cymorth angen amddiffyniad ychwanegol.





Dylech chi gael eich trin neu gael gofal mewn ffordd sy'n golygu eich bod chi'n saff a'ch bod chi'n gallu gwneud y pethau ydych chi eisiau eu gwneud.

Mae rhyddid yn golygu bod yn rhydd i wneud y pethau ydych chi eisiau eu gwneud, pan ydych chi eisiau eu gwneud.





Os oes pobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau am le'r ydych chi'n byw a sut ydych chi'n cael gofal, efallai bod gennych **ddiffyg rhyddid**. Efallai bod hyn er mwyn eich cadw chi'n ddiogel.




Os ydi hyn yn digwydd i chi, byddai'n rhaid i hyn fod oherwydd mai dyma ydi'r peth gorau i chi. Mae'n rhaid i bobl feddwl yn ofalus iawn i wneud yn siŵr bod y penderfyniadau yn iawn i chi.




Nid cosb am wneud rhywbeth yn anghywir ydi Amddifadu o Ryddid. Dim ond os oes angen er mwyn cadw pobl yn saff mae hyn yn cael ei wneud, ac os mai dyma'r peth iawn i chi.





Os ydych chi'n cael eich amddifadu o ryddid, mae angen amddiffyniad arbennig arnoch sef **mesurau diogelu**. Gwiriadau i wneud yn siŵr eich bod yn cael y gofal iawn ydi'r rhain.




Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT


# Sut mae Amddifadu o Ryddid yn cael ei awdurdodi?





Fedrwn ni ddim gwneud gorchymyn Amddifadu o Ryddid heb i farnwr mewn llys arbennig ddweud bod hynny'n iawn.  Llys Gwarchod ydi'r enw ar y llys yma.




Dydi'r Llys Gwarchod ddim yn penderfynu os ydi rhywun wedi gwneud rhywbeth o'i le.




Mae'r llys hwn yn helpu i wneud yn siŵr mai dim ond oherwydd bod angen gwneud hynny er mwyn eich cadw chi'n saff fydd eich rhyddid yn cael ei gyfyngu.




Mae'r Llys Gwarchod yn gallu gwneud penderfyniadau am arian neu les i bobl nad oes ganddynt allu meddyliol i wneud hyn eu hunain.




Y rhan fwyaf o'r amser, dydi pobl ddim yn mynd i'r llys ar gyfer gwrandawiad am orchymyn Amddifadu o Ryddid.  Mae'r barnwr yn gallu gwneud penderfyniad trwy edrych ar adroddiadau.



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT

# Sut mae cais yn cael ei wneud?

gweithiwr cymdeithasol



Bydd Asesydd Lles Pennaf yn dod i'ch gweld chi i wneud yn siŵr bod eich gofal yn iawn.

Mae Asesydd Lles Pennaf yn berson sydd wedi cael hyfforddiant arbennig i benderfynu a yw gofal ar gyfer person yn iawn iddyn nhw.

risg



Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod unrhyw reolau neu gyfyngiadau ddim ond yn cael eu defnyddio i'ch cadw chi'n saff.

risg



Mae hyn yn golygu bod unrhyw beth ydych chi'n cael eich stopio rhag ei wneud yn cael ei stopio i atal risg mawr o niwed.

adroddiad




Byddan nhw'n gwneud cais i'r Llys Gwarchod. Bydd llawer o fanylion yn yr adroddiad oherwydd mae'n rhaid i'r barnwr gytuno â'r cynllun gofal.


beth ydw i'n ei feddwl




Bydd y barnwr eisiau gwybod beth ydych chi ei eisiau a beth ydych chi'n ei feddwl am eich gofal a chefnogaeth, a lle ydych chi'n byw.



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT




Bydd y barnwr eisiau gwybod beth mae eich teulu neu ffrindiau agos yn ei feddwl am eich gofal hefyd.




Pan fydd yr Asesydd Lles Pennaf wedi edrych ar bopeth ac yn meddwl bod eich cynllun gofal yn rhoi gymaint ag sy'n bosibl o ryddid i chi, byddant yn gwneud cais i'r Llys Gwarchod.

## Cysylltwch â Ni

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Os ydych chi eisiau siarad gyda'r Asesydd Lles Pennaf am unrhyw beth, gallwch gysylltu trwy:




E-bost: gweinydduanableddau@conwy.gov.uk

Rhif ffôn: 01492 575374



Pob Delwedd, ar wahân i logo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, hawlfraint © LYPFT